# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Ionawr 2015 i'w hateb ar 20 Ionawr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyflwyno baner y Deyrnas Unedig yn hytrach na baner Cymru ar drwyddedau gyrru? OAQ(4)2055(FM)**W**

**2. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r sector addysg uwch yng Nghymru? OAQ(4)2058(FM)

**3. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y problemau teithio sydd wedi deillio o waith i wella rheilffyrdd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2057(FM)

**4. Nick Ramsay (Mynwy):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant llaeth? OAQ(4)2051(FM)

**5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd signal ffôn symudol yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)2047(FM)

**6. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i mewn i addysg uwch ar hyn o bryd? OAQ(4)2046(FM)

**7. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gryfhau diwydiant amaethyddol Cymru yn 2015? OAQ(4)2060(FM)

**8. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am effeithiau rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU? OAQ(4)2049(FM)

**9. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr ymgyrch Dewis Doeth y gaeaf hwn? OAQ(4)2050(FM)**W**

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun busnes ar gyfer canolfan rhanbarthol i fabanod newydd-anedig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2052(FM)**W**

**11. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau cyfraddau hunanladdiad a hunan-niwed? OAQ(4)2061(FM)

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd mewn trefi marchnad yng Nghymru? OAQ(4)2041(FM)

**13. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am allu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru i ymdopi â'r galw? OAQ(4)2056(FM)**W**

**14. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn Nhorfaen? OAQ(4)2048(FM)

**15. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru? OAQ(4)2053(FM) **TYNNWYD YNOL**